
Margam Park Events Guide 2026 Welsh.qxp_Layout 1 09/03/2026 2:09 pm Page 1





## Cysylltwch â ni

01639 881635
margampark@npt.gov.uk
margamcountrypark.co.uk

Margam Country Park, Margam,
Port Talbot SA13 2TJ

hynt — we're a hynt venue
committed to improving accessibility to arts and culture
www.hynt.co.uk

Manylion yn gywir ar adeg mynd i'r wasg
Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

Ewch i'n gwefan am fwy rhestrau digwyddiadau manwl.

blanhigion cigysol, prin a hynod anghyffredin. Darganfyddwch sut mae'r helwyr bach rhyfedd hyn yn byw, beth maen nhw'n hoffi ei fwyta a sut gallwch eu cadw'n hapus gartref! Byddwch yn barod... bydd yn ddigwyddiad gwych! 12.00pm - cwrdd yn y castell!

### Dydd Gwener 10 Mai
**Diwrnod Fferm gyda Chyfeillion Parc Margam** - plannwch hedyn blodyn haul, gwnewch fygydau anifeiliaid fferm a dysgwch am ein ffrindiau ar lwybr y fferm. Llawer o hwyl i bawb. Gweithgareddau am ddim - croesewir rhoddion. Cwrdd yn y castell. 11.00am - 12.30pm, 1.30pm - 3pm
**Kidzfun - Diwrnod Hwyl a Chrefftau**. Dyma gyfle i chi fod yn greadigol wrth baentio eich crochenwaith eich hun, creu poteli tywod celf neu luniau tywod. Gallwch ddewis o amrywiaeth o ddyluniadau cyffrous. Cwrdd yn y castell. Prisiau'n dechrau o £4.50. 11.00am - 3.00pm

## Mehefin

### Dydd Mawrth 2 Mehefin
**Bioleg yn y Parc** - Prifysgol De Cymru. Dewch i fyd diddorol bioleg, lle mae'r digwyddiad difyr ac addysgol hwn i ysgolion yn llawn gweithgareddau a heriau ymarferol. Archebwch le ar gyfer sesiwn i'ch ysgol.

### Dydd Sul 14 Mehefin
**Dragon Ride** - Her feicio bwysicaf y DU, sef marathon beicio anghystadleuol a gynhelir dros lwybr mynyddig ar ffyrdd cyhoeddus yn ne Cymru a Bannau Brycheiniog www.dragonride.co.uk. Ni fydd Trên Margam yn gweithredu ar y diwrnod hwn

### Dydd Sadwrn 20 Mehefin a dydd Sul 21 Mehefin
**Barrio Fiesta Sa Wales 2026** a drefnwyd gan Ffilipiniaid yng Nghymru. Dewch i weld ein harddangosfa o ddiwylliant, bwyd, cerddoriaeth a dawns. Mae'n llawn syrpreisys a hwyl! CROESO I BAWB
www.barriofiestawales.com

## Gorffennaf

### Dydd Sadwrn 4 Gorffennaf a dydd Sul 5 Gorffennaf
**Bridgend County Vintage Club** - Darganfyddwch yr amrywiaeth enfawr ac anhygoel o dractorau anarferol a hen beiriannau fferm y mae'r grŵp yn dod â nhw. Siaradwch â'r arbenigwyr i ddysgu mwy. Mynediad am ddim, codir tâl am barcio.
**Lloyds National Mountain Bike Cross-Country Series** - Rownd 5. Mae'r parc yn cynnal digwyddiad cenedlaethol British Cycling. Sylwer y bydd rhai rhannau o lwybrau ar gau ar gyfer y digwyddiad.
britishcycling.org.uk

### Dydd Iau 9 Gorffennaf
**UK Challenge 2026** - Mae'r parc yn cynnal y digwyddiad adeiladu tîm corfforaethol hwn ar ei ymweliad â Chymru. Dyma'r prawf gorau i ddod o hyd i'r tîm gorau. Mae UK Challenge yn fwy na digwyddiad chwaraeon - mae'n brofiad trawsnewidiol sy'n cryfhau cyfathrebu, yn datblygu arweinyddiaeth ac yn meithrin undod. Dyma brif ddigwyddiad adeiladu tîm y byd ers dros 36 mlynedd. ukchallenge.co.uk

### Dydd Gwener 10 Gorffennaf
**Mae Sinema Awyr Agored Adventure yn cyflwyno Jurassic Park (PG)** - Mae'r gatiau'n agor am 6.00pm a'r ffilm yn dechrau am 7.30pm. Mae tocynnau ar gael yn
adventurecinema.co.uk/venues/margam-country-park

### Dydd Sadwrn 11 Gorffennaf
**Mae Sinema Awyr Agored Adventure yn cyflwyno Mama Mia ExtrABBAganza (PG)** - Mae'r gatiau'n agor am 6.00pm a'r ffilm yn dechrau am 7.30pm. Mae tocynnau ar gael yn
adventurecinema.co.uk/venues/margam-country-park

### Dydd Sul 12 Gorffennaf
**Mae Sinema Awyr Agored Adventure yn cyflwyno**
**Bing and his Friends at the Cinema (U)** - dangosiad yn ystod y dydd - Mae'r gatiau'n agor am 10.00am a'r ffilm yn dechrau am 11.00am.
**Andrea Bocelli 30: The Celebration (PG)** - dangosiad gyda'r hwyr - Mae'r gatiau'n agor am 5.00pm a'r ffilm yn dechrau am 6.30pm. Mae tocynnau ar gael ar-lein yn
adventurecinema.co.uk/venues/margam-country-park

**Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau Haf yr Ysgol - gweler y dudalen 'Digwyddiadau' ar y wefan, y dudalen Facebook a thaflen gweithgareddau'r hafam fanylion diweddaredig. Llawer o hwyl dros haf poeth**

### Dydd Sul 19 Gorffennaf
**Diwrnod o Hwyl yr Haf i'r Teulu** - Dechreuwch wyliau'r ysgol gyda diwrnod allan gwych i'r teulu sy'n llawn cyffro, adloniant a rhai o'ch hoff gymeriadau, gan gynnwys **Bluey a Bingo, Titan the Robot, Paddington** a llawer mwy! Mwynhewch ddiwrnod llawn o sioeau byw, perfformiadau, dawnsio, canu, cyfleoedd tynnu lluniau a digon o hwyl i bobl o bob oedran. Cofiwch alw heibio'r castell i weld Arddangosfa Clwb Cychod Model Margam a chwrdd â'r criw!

Dyma ddiwrnod na fyddwch am ei golli. Mae'r holl sesiynau gyda chymeriadau a sioeau'n digwydd yn nhir y parc, felly byddwch yn barod am y tywydd. Tocynnau ymlaen llaw yn unig - mae nifer y lleoedd yn gyfyngedig ac mae tocynnau gostyngol cynnar ar gael.
Mae costau parcio wedi'u cynnwys ym mhris y tocyn ac mae ffioedd archebu Eventbrite yn berthnasol.

Cynhelir y digwyddiad beth bynnag yw'r tywydd, er y gall amserlenni fod yn destun mân newidiadau. Archebwch docynnau yn margampark.co.uk (Diwrnod Digwyddiad Arbennig)




## Awst

### Dydd Sadwrn 8 Awst a dydd Sul 9 Awst
**Marchnad Anrhegion a Chrefftau'r Haf yn y Castell**
Anrhegion pwrpasol hardd, celf syfrdanol, danteithion melys a sawrus cartref blasus, crefftau hyfryd, busnesau bach gwych, a llawer mwy . . . Mynediad am ddim - ar agor 11.00am - 4.00pm
**Camwch yn ôl mewn amser gyda marchogion a saethyddion canoloesol o'r grwp Medieval Combat Society.** Penwythnos llawn arddangosiadau saethyddiaeth, gornestau a chleddyfau. Cewch ofyn cwestiynau, dysgu sut i saethu bwa hir, gwisgo arfwisg a dysgu am grefftau llaw a bwyd yr oes. Diwrnod allan gwych. 11.00am - 3.00pm

### Dydd Sul 9 Awst
Dewch i gwrdd â'r **Tîm Achub Gwylwyr y Glannau** lleol a **British Divers Marine Life Rescue.** Dewch i gwrdd â'r timau. Gallwch ddysgu am aros yn ddiogel ar yr arfordir, gweld ein cyfarpar, rhoi cynnig ar daflu llinell fywyd a hyd yn oed camu y tu mewn i'n canolfan reoli gludadwy. Dewch i ddarganfod sut mae elusen Marine Life Rescue yn helpu ein bywyd gwyllt morol. Bydd y timau hefyd yn ateb cwestiynau am sut y gallwch ymuno â ni fel gwirfoddolwr! Ar lawntiau'r castell. 10.00am - 3.00pm

### Dydd Sadwrn 15 Awst a dydd Sul 16 Awst
**Arddangosfa Tai Doliau** - Bywyd ar Ffurf Fechan - golygfeydd o fywyd go iawn ar raddfa fach... arddangosfa hynod ddiddorol ar ffurf fechan! Yn y castell, wedi'i gyflwyno gan Glwb Tai Doliau Gorllewin Morgannwg. 11.00am - 3.00pm. Mynediad am ddim - croesewir rhoddion Arddangosfa Ffotograffig Cyfeillion Parc Margam yn y castell. Galwch heibio i weld rhai o'r lluniau anhygoel y mae'r grŵp wedi'u tynnu dros y flwyddyn ddiwethaf. 11.00am - 3.00pm

### Dydd Iau 20 Gorffennaf
**Gwyl Ystlumod CNPT** - Darganfyddwch fyd diddorol ystlumod ym Mharc Margam, un o'r safleoedd gorau ar gyfer ystlumod yn y DU! Os ydych yn dwlu ar ystlumod neu'n chwilfrydig am y creaduriaid anhygoel hyn, mae rhywbeth at ddant pawb. Ymunwch â ni am droeon, sgyrsiau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ystlumod. 2.00pm - 10.00pm Ceir mwy o wybodaeth yn naturenpt.cymru/whats-on

### Dydd Sul 23 Awst
**The Big Cycle** - Cynhelir y ras heriol a chyffrous hon er budd Prostate Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogaeth i ddynion yng Nghymru sydd â chanser y brostad. Mae llwybr anodd a hanesyddol yn aros am y rheini sy'n mynd i mewn i'r digwyddiad hwyliog, poblogaidd hwn sy'n tyfu'n gyflym. Mwynhewch feicio drwy olygfeydd syfrdanol De Cymru yn ystod ras orau Cymru. Mae dewis o ddau lwybr: 54 a 72 milltir.
www.prostatecymru.com/the-big-cycle/home/

### Dydd Sadwrn 29 dydd Sul 30 a dydd Llun 31
**The Great British Food Festival** - Nôl am ei seithfed flwyddyn ym Mharc Gwledig Margam! Mae The Great British Food Festival sy'n fwy na 'dim ond gŵyl fwyd arall' yn cyfuno cariad y genedl at fwyd a diod da gyda rhai o leoliadau mwyaf poblogaidd y wlad, gan roi cyfle unigryw i archwilio blasau newydd a lleoliadau hardd ar yr un pryd! Parcio am ddim ar y safle - ffi fynediad yn berthnasol. Mae croeso i gŵn ar dennyn sy'n ymddwyn yn dda. Tocynnau a rhagor o fanylion greatbritishfoodfestival.com (Diwrnod Digwyddiad Arbennig)

## Hydref

### Dydd Gwener 2 Hydref
**The BIG Sleep Margam** - Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni i dorri'r cylch o ddigartrefedd gyda chyfle bythgofiadwy i ddweud eich bod wedi cymryd rhan yn The BIG Sleep Margam. Mae'r digwyddiad bythgofiadwy hwn yn golygu treulio noson o dan y sêr, ond mae hefyd yn ymwneud â gweithredu dros gyn-filwyr sy'n wynebu digartrefedd a chaledi yn ein hardal sydd angen ein gofal. alabare.co.uk/events

### Dydd Gwener 9 Hydref
**Mae Sinema Awyr Agored Adventure yn cyflwyno Scream (18)** - Mae'r gatiau'n agor am 6.00pm a'r ffilm yn dechrau am 7.30pm. Mae tocynnau ar gael ar-lein yn
adventurecinema.co.uk/venues/margam-country-park

### Dydd Sadwrn 10 Hydref
**Mae Sinema Awyr Agored Adventure yn cyflwyno**
**Room on the Broom a The Gruffalo (U)** dangosiad yn ystod y dydd - Mae'r gatiau'n agor am 10.00am a'r ffilm yn dechrau am 11.00am.
**Hocus Pocus (PG) dangosiad gyda'r hwyr** - Mae'r gatiau'n agor am 5.00pm a'r ffilm yn dechrau am 6.30pm. Mae tocynnau ar gael ar-lein yn
adventurecinema.co.uk/venues/margam-country-park

### Dydd Sul 11 Hydref
**Mae Sinema Awyr Agored Adventure yn cyflwyno The Nightmare Before Christmas (PG)** - mae'r gatiau'n agor am 5.00pm a'r ffilm yn dechrau am 6.30pm. Mae tocynnau ar gael ar-lein yn
adventurecinema.co.uk/venues/margam-country-park

### Dydd Sadwrn 17 Hydref
**Diwrnod Afalau** - Dathliad o bopeth sy'n ymwneud ag 'Afalau' yn ein Perllan a'n Dôl Gymunedol. Gwneud sudd afalau, bwyd, crefftau, cerddoriaeth ac arbenigedd y berllan. Yn y berllan, 11.00am - 3.00pm

**Gweithgareddau Hanner Tymor yr Hydref**
Dydd Sadwrn 24 Hydref – Dydd Sul 1 Tachwedd
Gweler y dudalen 'Digwyddiadau' ar y wefan, y dudalen Facebook a thaflen gweithgareddau'rhanner tymor am fanylion. Hwyl Calan Gaeaf Arswydus

### Dydd Gwener 16 Hydref i ddydd Sul 1 Tachwedd
**Scream Time** - profwch wefr iasol ac actorion byw sy'n cuddio yn nigwyddiad Scream Time ar dir y parc a'r castell. Y digwyddiad perffaith ar gyfer y rheini sy'n hoffi cael eu dychryn! screamtime.co.uk for tickets.

## Tachwedd

### Dydd Sadwrn 14 Tachwedd i ddydd Sul 29 Tachwedd
**Gwyl Coed Nadolig Gymunedol Margam** mewn partneriaeth Chyfeillion Parc Margam. Mae'r parc yn falch o drefnu Gŵyl Coed Nadolig Cymunedol am y pumed flwyddyn. Nod y digwyddiad arbennig hwn yw dod â grwpiau'r parc, grwpiau cymunedol, ysgolion, busnesau ac ymwelwyr at ei gilydd i greu arddangosfa Nadoligaidd hyfryd i bawb ei mwynhau. 11am - 3pm - Gall ymwelwyr gael mynediad i'r ŵyl yn y castell drwy gyfraniad.


### Dydd Gwener 20 Tachwedd i ddydd Iau 31 Rhagfyr
**Luminate 2026** - Llwybr hudolus wedi'i oleuo gyda'r nos. Byddwch yn dilyn y llwybr, sydd wedi'i osod i gerddoriaeth amgylchynol, wrth iddo fynd drwy'r gerddi ac o amgylch tu allan y castell, gydag elfennau goleuo trawiadol a goleuadau chwareus yn eich tywys ar hyd y ffordd. Bydd hefyd eiliadau ac uchafbwyntiau arbennig. Traddodiad teuluol na ddylid ei golli!

### Dydd Sul 29 Tachwedd
**Llwybr Coblynnod Margam** - Ymunwch â ni am daith gerdded Nadoligaidd o amgylch y parc gyda Chyfeillion Parc Margam – gwisgwch eich het coblyn, eich siwt coblyn neu'ch siwmper Nadolig! Digwyddiad i bobl â thocynnau'n unig; cyfyngir ar niferoedd.

## Rhagfyr

**Luminate 2026 yn ddyddiol** - Llwybr hudolus wedi'i oleuo gyda'r nos. Byddwch yn dilyn y llwybr, sydd wedi'i osod i gerddoriaeth amgylchynol, wrth iddo fynd drwy'r gerddi ac o amgylch tu allan y castell, gydag elfennau goleuo trawiadol a goleuadau chwareus yn eich tywys ar hyd y ffordd. Bydd hefyd eiliadau ac uchafbwyntiau arbennig. Traddodiad teuluol na ddylid ei golli! luminate.live/margam-country-park

### 5, 6, 12, 13, 19, 20 a 21 Rhagfyr
**Bwydo Ceirw Siôn Corn a Diwrnodau Gweithdy Coblynnod** - Dewch i wylio Siôn Corn yn bwydo'i geirw'r mis Rhagfyr hwn! Digwyddiad traddodiadol poblogaidd i'r teulu. Beth am roi cynnig ar un o'r Gweithdai Coblynnod poblogaidd? Llawer o hwyl dros y Nadolig! Digwyddiad i bobl â thocynnau yn unig; cadwch le ymlaen llaw.



Parc Gwledig Margam Country Park

# CANLLAW DIGWYDDIADAU 2026

Wi-Fi

www.margamcountrypark.co.uk

Supported by The National Lottery through the Heritage Lottery Fund

# Gweithgareddau rheolaidd

## Dewch i 'Gwrdd â'r Ffermwr'

Cewch ddysgu am y bridiau prin sydd gennym ni ar Lwybr y Fferm. Cwrdd wrth fynedfa Llwybr y Fferm am 1pm (1 Ebrill – 30 Medi bob dydd Gwener, dydd Llun a dydd Gwener yn ystod gwyliau'r ysgol ac eithrio Dyddiau Llun Gŵyl y Banc).

## Troeon a Theithiau Tywys Cyfeillion Parc Margam

Mae grŵp Cyfeillion y Parc yn cynnig detholiad hyfryd o droeon a theithiau tywys. Am fanylion ac amserau'r teithiau ewch i friendsofmargam.co.uk a chyfryngau cymdeithasol neu galwch heibio'r Tŷ Tyrbin i gwrdd â'r Tîm. Cyfle gwych i ddysgu ychydig mwy a gwneud ffrindiau newydd. Mae pob taith yn dibynnu ar y tywydd; bydd angen esgidiau addas.

## Grŵp Ffotograffiaeth Cyfeillion Parc Margam

Ymunwch â am daith gerdded ffotograffiaeth hamddenol o amgylch Parc Margam bob pythefnos — does dim angen unrhyw offer arbennig ac mae croeso i bob lefel sgiliau.

## Margam Park Adventure

Mae'r ganolfan antur ym meili ymwelwyr y castell yn cynnig 20 oweithgareddau i grwpiau corHoraethol, ysgolion, colegau a'r cyhoedd, gyda thîm gwych o hyHord-dwyr cymwys a brwdfrydig. Gallwch logi'r canlynol gennym: Go-cart â phedalau, beiciau mynydd, e-feiciau, cychod rhwyfo, pedalos, canŵiau, caiaciau a byrddau padlo. Gallwch drefnu sesiynau dan arweiniad hyHorddwr ar gyfer: saethyddiaeth, taflu bwyeill, meithrin tîm, creHt y goedwig, beicio mynydd, teithiau e-feicio, cyfeiriannu, adeiladu raHt, ioga ar fyrddau padlo a llawer mwy! Os ydych yn chwilio am gyHro ar y dŵr neu ar y tir, mae gennym rywbeth at ddantpawb!
Ffôn: 07825446846 margamparkadventure.co.uk

## Beth am brofi Go Ape?

Mae'r siglen Tarzan fwyaf yn y DU i'w chael yn ein Hantur ym Mrigau'r Coed ym Margam. Bydd rhaid i chi baratoi eich hun at naid o ffydd sy'n cynnwys cwymp o chwe metr a fydd yn corddi'r stumog! Cadwch le yn goape.co.uk/days-out/wales/margam

## Ap Love Exploring

Ydych chi'n chwilio am bethau i'w gwneud fel teulu? Lawrlwythwch yr ap **'LOVE EXPLORING' sydd AM DDIM** i ddarganfod gemau a llwybrau tywys, a phob un wedi'i lunio i'w mwynhau gyda'i gilydd. Mae 'na dylwyth teg, mân-filod enfawr a dinosoriaid i ddod o hyd iddynt, a phan fyddwch chi'n cwrdd â nhw byddant yn gofyn cwestiwn i chi am y lleoliad rydych chi ynddo. Llawer o hwyl i bawb.



# Mawrth

### Dydd Sul 1 Mawrth

**Cinio Dydd G yl Dewi yn yr Orendy** - pryd blasus gyda cherddoriaeth fyw i ddathlu diwrnod arbennig. TheOrangeryStDavidsDay.eventbrite.co.uk

### Dydd Sul 15

**Sul y Mamau yn yr Orendy** - dathlwch y menywod gwych yn eich bywyd gyda phrofiad bwyta arbennig yn yr Orendy. Mwynhewch bryd o fwyd wedi'i baratoi'n hyfryd mewn amgylchedd deniadol gyda cherddoriaeth fyw ysgafn i greu'r awyrgylch perffaith. Ffordd hyfryd a chofiadwy o anrhydeddu eich annwyl fam. TheOrangeryMothersDay.eventbrite.co.uk
**Ras 10k a 5k Parc Margam** - Her gyffrous mewn amgylchedd syfrdanol - mae ras 10k Parc Margam yn dychwelyd yn 2026! Archebwch eich lle https://www.eventbrite.co.uk

### Dydd Llun 30 Mawrth

**Hwyl y Pasg** gyda Chyfeillion Parc Margam. Cewch greu bwni'r Pasg, torch, lliwio cwningen bren a chreu cerdyn y Pasg. Llawer o hwyl i bawb o bob oedran. Gweithgareddau am ddim - croesewir rhoddion. Cwrdd yn y castell. 11.00am - 12.30pm, 1.30pm - 3.00pm
**Kidzfun - Diwrnod crefftau ar thema'r Pasg**. Paentiwch eich pot bywyd gwyllt eich hun; mae dyluniadau amrywiol ar gael a gallwch hefyd greu potel celf tywod neu lun tywod. Mae prisiau'n dechrau o £4.50 a chost tatŵs pefr yw £4. Yn y castell, 11.00am - 3.00pm

### Dydd Mawrth 31

**Mae Splat Messy Play** yn ddosbarth chwarae hwyliog, strwythuredig a llawn llanast i blant rhwng 6 mis a 5 oed. Ceir 7 gorsaf chwarae wahanol gyda glŵp, paent, dŵr ac ewyn, reis a hwyl creu llanast bwytadwy - ac mae'r cyfan wedi'i ddylunio i annog creadigrwydd, hyder ac archwilio synhwyraidd. Rydym yn gwneud yr holl waith paratoi a glanhau fel y gallwch chi a'ch plentyn fwynhau hud chwarae llanast! Sesiynau 10.00am - 11.00am a 1.00pm - 2.00pm bookwhen.com/splatbridgendportalbot
**Wildspace - Angerdd am Natur**
**Gweithdy Darganfod Ffosiliau** 12.30pm - 2.00pm - Dadansoddwch raean a chreigiau i ddarganfod gwahanol fathau o ffosiliau. Dysgwch fwy am sut mae creigiau'n ffurfio a sut gall ffosilau ein dysgu am ein byd a sut mae wedi newid.
**Gweithdy Gwyddoniaeth Tylluanod** 10.30am-12pm - Dysgwch fwy am dylluanod a chymerwch gip mwy manwl ar eu haddasiadau anhygoel. Dysgwch am blu, eu deiet, eu nodweddion a'r dystiolaeth maent yn ei gadael ar eu hôl.
**Taith Gerdded a Gweithdy Braslunio Ceirw** 2.30pm - 4.00pm - Ewch am dro drwy'r parc ceirw gyda llyfr braslunio a phensil a dysgwch sut i fraslunio anifeiliaid sy'n symud. Cewch ddysgu am geirw Margam a'u dod yn fyw ar y dudalen. Gwych i ddechreuwyr ac amaturiaid.
**Archebwch le ar wildspaceproject.com**
**Rhoi Cynnig ar Saethyddiaeth** gyda Chlwb Saethyddiaeth Margam. 3 saeth am £1. Cwrdd ar safle'r barbeciw y tu ôl i'r castell. 11.00am - 3.00pm

# Ebrill

### Dydd Mercher 1

**Gweithdy Gwyddoniaeth Losin** - Ymunwch â ni am antur wedi'i hysbrydoli gan Willy Wonka sy'n llawn chwilfrydedd, lliw a melysfwyd! Yn y gweithdy ymarferol hwn, bydd plant yn archwilio adweithiau cemegol a chymysgeddau â dwysedd lliw wrth iddynt greu eu losin eu hunain drwy wyddoniaeth. Mae'r sesiwn hon yn dod â chemeg yn fyw yn y ffordd fwyaf blasus posib - ac mae popeth yn fwytadwy. Mae'r holl gynhwysion a ddefnyddir yn feganaidd ac yn addas ar gyfer halal. Mae'n berffaith i blant chwilfrydig sy'n dwlu ar arbrofi, cymysgu a darganfod sut mae gwyddoniaeth yn gweithio drwy chwarae. Mae lleoedd yn brin. 10.00am a 12.00pm yn y castell.
bookwhen.com/experimentalscienceeventsExperimentalScience
**Kidzfun - Diwrnod Hwyl a Chrefftau.** Dyma gyfle i chi fod yn greadigol wrth baentio eich crochenwaith eich hun neu greu poteli tywod celf neu luniau tywod. Gallwch ddewis o amrywiaeth o ddyluniadau cyffrous. Cwrdd yn y castell. Prisiau'n dechrau o £4.50. 11.00am - 3.00pm
**Rhoi Cynnig ar Saethyddiaeth** gyda Chlwb Saethyddiaeth Margam. 3 saeth am £1. Cwrdd ar safle'r barbeciw y tu ôl i'r castell. 11.00am - 3.00pm

### Dydd Iau 2 Ebrill

**Mae antur frenhinol yn aros amdanoch**! Amser stori gyda Thywysogesau. Camwch i fyd llawn hud wrth i'n tywysogesau hardd rannu straeon hudolus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Eisteddwch, gwrandewch ac ymunwch yn yr hwyl wrth i'r straeon ddod yn fyw gyda dymuniadau, pefr, canu a dawnsio. Yn y castell. Sesiynau'n dechrau am 11.30am, 12.30pm, 1.30pm a 2.30pm (tua 30 munud y sesiwn)
**Kidzfun - Diwrnod crefftau ar thema'r Pasg.** Paentiwch eich pot bywyd gwyllt eich hun; mae dyluniadau amrywiol ar gael a gallwch hefyd greu potel celf tywod neu lun tywod. Mae prisiau'n dechrau o £4.50 a chost tatŵs pefr yw £4. Yn y castell, 11.00am - 3.00pm

### Dydd Gwener y Groglith, 3 Ebrill

**Adrodd Straeon yn y Castell gydag Owen Staton** - Ymunwch â'r storïwr a
chyflwynydd podlediad Time Between Time, Owen Staton, am ddiwrnod hudolus o chwedlau, llên gwerin a hen straeon. **Troad y Flwyddyn** - Dathlwch droad y flwyddyn gyda chwedlau Cymreig o aileni, adnewyddu a dyfodiad yr haf. Gwrandewch ar straeon lle mae'r hen yn ildio i'r newydd ac mae'r byd yn dod yn fyw unwaith eto gyda bywyd a phosibilrwydd. Cyfarfod yn y castell - mae'r sesiynau'n dechrau am 11.30am, 12.30pm, 1.30pm a 2.30pm

### Dydd Sadwrn 4 Ebrill - Dydd Llun 6 Ebrill -

**Marchnad Grefftau ac Anrhegion Parc Gwledig Margam yn y Castell** - Anrhegion pwrpasol hardd, celf syfrdanol, danteithion melys a sawrus cartref blasus, crefftau hyfryd, busnesau bach gwych, A llawer mwy... Mynediad am ddim (codir tâl mynediad ar y 6ed) Ar agor 11.00am - 4.00pm

## Dydd Llun 6 Ebrill

**Diwrnod Hwyl i Deuluoedd Dydd Llun y Pasg Ymunwch â ni ddydd Llun G yl y Banc y Pasg am ddiwrnod llawn hwyl gyda'ch hoff gymeriadau - Peppa Pig a George, Hey Duggee, Peter Rabbit™ a mwy!**
Mwynhewch sioeau byw, dawnsio, canu, cyfleoedd i dynnu lluniau a digon o weithgareddau i'r teulu cyfan. Dewch i gwrdd â Peppa Pig a George wrth iddynt rannu straeon am eu hanturiaethau mewn pyllau mwdlyd. Ymunwch â Hey Duggee yn ei weithgaredd i ennill bathodyn, Stick Song. Darganfyddwch straeon Peter Rabbit™ a'i anturiaethau cyffrous yng ngardd Mr McGregor. Peidiwch â cholli Dathliad y Tywysogesau, digwyddiad cyd-ganu 'It's Wicked', gweithdai syrcas a chwarae , sioeau Lucy Lost-It a chyfle i gwrdd â'r ffermwyr Frank a Dave a'u cyw iâr sy'n dodwy wyau siocled! Gwyliwch PANG ON, y jyglwr sy'n perfformio triciau anhygoel gyda chomedi a chyfranogiad y gynulleidfa. Arddangosfa rhoddion a chrefftau yn y castell. Dewch i gwrdd ag aelodau Clwb Cychod Model Margam ar y llyn. Diwrnod na ddylid ei golli. Bydd y cymeriadau a'r sioeau ar gael i'w gweld ar dir y parc - felly gwisgwch ddillad addas ar gyfer y tywydd!
Mae'r FFÏOEDD PARCIO wedi'u CYNNWYS YM MHRIS Y TOCYNNAU. Mae tocynnau gostyngiad cynnar bellach ar werth. Codir ffi archebu gan Eventbrite. (Cynhelir y digwyddiad beth bynnag fo'r tywydd, er, efallai y bydd newidiadau bach) (diwrnod digwyddiad arbennig y parc)



### Dydd Mawrth 7 Ebrill

**Gweithgareddau'r Gwanwyn** - Dewch i gael hwyl gyda Chyfeillion Parc Margam drwy greu oen y gwanwyn, mygydau, magnedau pren, cardiau - defnyddiwch eich dychymyg. Llawer o hwyl i bawb. Gweithgareddau am ddim - croesewir rhoddion. Cwrdd yn y castell. 11.00am-12.30pm, 1.30pm-3.00pm
**Kidzfun - Deinosoriaid ac Uncyrn.** Paentiwch eich pot bywyd gwyllt eich hun; mae dyluniadau amrywiol ar gael a gallwch hefyd greu potel celf tywod neu lun tywod. Yn y castell. Prisiau'n dechrau o £4.50. 11.00am-3.00pm.
**Archwilio Pyllau gyda Thîm Canolfan Ddarganfod Margam** - Dewch i ddarganfod beth sydd o dan wyneb ein pwll dŵr croyw. Cewch ddysgu sut mae ynni'n symud drwy ecosystemau a sut mae ymrwymiad cyson i gynaliadwyedd y blaned yn ein helpu ni i gyd ddod yn ddinasyddion moesegol Cymru a'r byd. Sesiynau archwilio'r pwll - cwrdd wrth y Pwll Newydd ger y lle chwarae antur. 10.00am - 2.00pm
**Rhoi Cynnig ar Saethyddiaeth** gyda Chlwb Saethyddiaeth Margam. 3 saeth am £1. Cwrdd ar safle'r barbeciw y tu ôl i'r castell. 11.00am - 3.00pm

### Dydd Mercher 8 Ebrill

**Tylwyth Teg a Môr-forynion – Antur Amser Stori Hudolus!**
Dewch i'r castell a byddwch yn barod am antur danfor arbennig lle mae tylwyth teg yn disgleirio, lle mae môr-forynion yn sblasio a lle mae pob eiliad yn teimlo'n hudol. O'r eiliad cyntaf, bydd yr awyr yn llawn dymuniadau, pefr, chwerthin a sŵn caneuon poblogaidd drwy'r neuaddau. Adroddir straeon yn Gymraeg ac yn Saesneg a ph'un a ydych chi'n siglo fel môr-forwyn o dan y tonnau neu'n troelli fel tylwyth teg yng ngolau'r lleuad, ceir cyffro ym mhob eiliad. Yn y castell. Mae'r sesiynau'n dechrau am 11.30am, 12.30pm, 1.30pm a 2.30pm a bydd pob un ohonynt yn para oddeutu tri deg munud
**Archwilio Pyllau gyda Thîm Canolfan Ddarganfod Margam** - Dewch i ddarganfod beth sydd o dan wyneb ein pwll dŵr croyw. Cewch ddysgu sut mae ynni'n symud drwy ecosystemau a sut mae ymrwymiad cyson i gynaliadwyedd y blaned yn ein helpu ni i gyd ddod yn ddinasyddion moesegol Cymru a'r byd. Sesiynau archwilio'r pwll - cwrdd wrth y Pwll Newydd ger y lle chwarae antur. 10.00am - 2.00pm
**Kidzfun - Diwrnod crefftau ar thema'r gwanwyn** gyda blodau, cwningod a blodau'r haul. Paentiwch eich pot bywyd gwyllt eich hun; mae dyluniadau amrywiol ar gael a gallwch hefyd greu potel celf tywod neu lun tywod. Mae prisiau'n dechrau o £4.50 a chost tatŵs pefr yw £4. Yn y castell, 11.00am - 3.00pm
**Rhoi Cynnig ar Saethyddiaeth** gyda Chlwb Saethyddiaeth Margam. 3 saeth am £1. Cwrdd ar safle'r barbeciw y tu ôl i'r castell. 11am - 3pm

### Dydd Iau 9 Ebrill

**Adrodd straeon yn y Castell gydag Owen Staton** - Ymunwch â'r storïwr a chyflwynydd podlediad Time Between Times. The Dance of the Dragons - Archwiliwch straeon am ddreigiau, angenfilod ac anifeiliaid hudolus o lên gwerin Cymru. O fwystfilod hynafol sy'n siapio'r tir i greaduriaid sy'n gwarchod doethineb cudd, mae'r straeon hyn yn dod â byd cyffrous a rhyfeddol chwedlau'n fyw. Cwrdd yn y castell - mae'r sesiynau'n dechrau am 11.30am, 12.30pm, 1.30pm a 2.30pm

**Wildspace - Angerdd am Natur**
**Gweithdy Esgyrn** 10.30am - 12.00pm - Archwiliwch fyd rhyfeddol esgyrn a beth gallwn ni ei ddysgu ohonynt. Dadansoddwch esgyrn anifeiliaid gwahanol a deall strwythurau gwahanol a'r cliwiau maen nhw'n eu rhoi i ni am fywyd yr anifail.

**Gweithdy Gwyddoniaeth Tylluanod** 2.30pm - 3.30pm - Dysgwch fwy am dylluanod a'u gwyddoniaeth a chymerwch gip mwy manwl ar eu haddasiadau anhygoel. Dysgwch am blu, eu deiet, eu nodweddion a'r dystiolaeth maent yn ei gadael ar eu hôl.
**Archebwch le ar wildspaceproject.com**

### Dydd Gwener 10 Ebrill

**Diwrnod Gludwaith** - Dewch i gael hwyl gyda Chyfeillion Parc Margam drwy wneud gludwaith o ddeunyddiau gwahanol a golygfeydd gwahanol. Llawer o hwyl i bawb. Gweithgareddau am ddim - croesewir rhoddion. Cwrdd yn y castell. 11am - 12.30pm, 1.30pm - 3pm
**Kidzfun - Paentiwch eich pot bywyd gwyllt eich hun**; mae dyluniadau amrywiol ar gael a gallwch hefyd greu potel celf tywod neu lun tywod. Mae prisiau'n dechrau o £4.50 a chost tatŵs pefr yw £4. Yn y castell, 11.00am - 3.00pm

### Dydd Sadwrn 11 Ebrill

**Taith Gerdded Ffotograffiaeth Iau** gyda Grŵp Ffotograffiaeth Cyfeillion Parc Margam. Canolbwyntir ar natur a'r dirwedd, felly dewch draw i ddat-blygu'ch sgiliau. Croeso i bawb. Rhaid i rieni aros gyda'u plant. Dewch â'ch camera neu eich ffôn eich hun. Cwrdd yn y castell am 10.30am (tua 2 awr). Archebwch eich lle ymlaen llaw.

### Dydd Sadwrn 11 Ebrill a dydd Sul 12 Ebrill

Camwch yn ôl mewn amser gyda marchogion a saethyddion canoloesol o'r grŵp **Medieval Combat Society.** Penwythnos llawn arddangosiadau saethyddiaeth, gornestau a chleddyfau. Cewch ofyn cwestiynau, dysgu sut i saethu bwa hir, gwisgo arfwisg a dysgu am grefftau llaw a bwyd yr oes. Diwrnod allan gwych. 11.00am - 3.00pm

### Dydd Sul 12 Ebrill

**Diwrnod Robotiaid yn y Castell** - Heddiw byddwn yn defnyddio cyfrifiaduron i reoli robotiaid LEGO. P'un a ydych yn blentyn oedran cynradd neu wedi ymddeol, byddwn yn dangos i chi sut i wneud i'ch robot symud, siarad, gwenu a llawer mwy! LLAWER O HWYL I BAWB. Ein nod, fel aelodau o Gymdeithas Cyfrifiaduron Prydain, y Sefydliad TG Siartredig, yw hyrwyddo a gwella addysg ac arferion cyfrifiadura er lles y cyhoedd. Croeso i bawb. Gweithgareddau am ddim. Dewch i'r castell. 11.00am - 3.00pm.

# Mai

### Dydd Sul 3 Mai

**Clwb Cychod Model Margam** - Arddangosfa a sesiwn 'rhoi cynnig arni' yn y castell - galwch heibio i gwrdd â'r criw!

## Dydd Llun 4 Mai - Dydd Llun Gwyl y Banc

Rydym yn disgwyl diwrnod prysur - gwnewch yn siŵr eich bod yn prynu eich tocynnau parcio ymlaen llaw. Lleoliad 704229

MIPERMIT

**Clwb Cychod Model Margam** - Arddangosfa a sesiwn 'rhoi cynnig arni' yn y castell - galwch heibio i gwrdd â'r criw!

### Dydd Sadwrn 16 Mai

**Pencampwriaeth Bwa Hir Cymru ym Mhorthdy'r Dwyrain margamarchers.net**

### Dydd Gwener 22 Mai

**Arwerthiant Planhigion Margam** - Bydd gan y tîm garddio a myfyrwyr Coleg Castell-nedd ddetholiad o blanhigion ar gael i chi eu prynu. Rhoddir yr holl arian yn ôl i'r gerddi. Cyngor wrth law ar gyfer eich cwestiynau garddio. Dewch â'ch bagiau neu'ch bocsys eich hun i fynd â'r planhigion adref. 11.00am - 2.00pm

### Dydd Sadwrn 23 Mai - dydd Llun 25 Mai

**G yl Farcuta Ryngwladol** - Dewch â'ch barcud ac ymunwch yn yr hwyl! Barcutiaid o bob siâp a maint.

### Dydd Sul 24 Mawrth

**Clwb Cychod Model Margam** - Arddangosfa a sesiwn 'rhoi cynnig arni' yn y castell - galwch heibio i gwrdd â'r criw!

## Dydd Llun 25 Mai - Gwyl y Banc y Gwanwyn

**Gwyl Farcuta Ryngwladol a 'Dathlu 30 mlynedd o Gyfeillion Parc Margam'** -
Darganfyddwch beth mae'r grŵp yn ei wneud; mae llawer o weithgareddau i'w mwynhau. **Clwb Cychod Model Margam Arddangosfa a sesiwn 'rhoi cynnig arni' yn y castell** - galwch heibio i gwrdd â'r criw! Gwnewch yn siŵr eich bod yn prynu eich tocynnau parcio ymlaen llaw.
Lleoliad 704229

MIPERMIT

### Dydd Mawrth 26 Mai

**Kidzfun - Deinosoriaid ac Uncyrn**. Paentiwch eich pot bywyd gwyllt eich hun; mae dyluniadau amrywiol ar gael a gallwch hefyd greu potel celf tywod neu lun tywod. Yn y castell. Prisiau'n dechrau o £4.50. 11am – 3pm.
**Rhoi Cynnig ar Saethyddiaeth** gyda Chlwb Saethyddiaeth Margam. 3 saetham £1. Cwrdd ar safle'r barbeciw y tu ôl i'r castell. 11am - 3pm

### Dydd Mercher 27 Mai

**Sioe Lucy Lost-It** - Paratowch am daith anghyffredin wrth i chi fynd i fyd hudolus Lucy Lost-It. Mae sioe Lucy Lost-It yn llawn hud, balwnau hyfryd, pypedwaith rhyfeddol a sgiliau syrcas anhygoel. Byddwch yn barod am brofiad difyr a fydd yn aros gyda chi ar y daith adref. Sioeau (tua 30 munud) Yn y castell 11.30am, 1.00pm a 2.30pm
**Rhoi Cynnig ar Saethyddiaeth** gyda Chlwb Saethyddiaeth Margam. 3 saeth am £1. Cwrdd ar safle'r barbeciw y tu ôl i'r castell. 11am - 3pm

### Dydd Iau 28 Mai

**The Story Wizards a Whimsical Tales** - Straeon i blesio ac ysbrydoli pob oedran a gyflwynir gan gymeriadau mewn gwisgoedd hudolus gydag ychydig o gymorth gan greaduriaid cyfeillgar. Cwrdd yn y castell, 11.30am, 1.30pm a 2.30pm
**Dewch i Fyd Gwyllt Planhigion Cigysol**! Ymunwch â Ryan, garddwr gwych ein parc, am sgwrs ddifyr a diddorol am ei gasgliad rhyfeddol o